Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Yr amserlen ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig: 2024 i 2025

Y dyddiadau y bydd angen i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyflwyno eu data.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 12 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 12 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Diben**

**Gwybodaeth ofynnol**

**Dull Cyflwyno**

**Manylion cyswllt**

**Atodiad A: Amserlen ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Diben

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth sy'n ofynnol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 ac mae yn rhoi arweiniad ar y cyflwyniadau hynny yn ôl y gofyn. Bydd templedi ar gael ar wefan Llywodraeth **Cymru Ffurflenni rheoleiddio ar gyfer cymdeithasau tai** arn gyfer ffurflenni sy'n gofyn am gyflwyniad mewn fformat penodol.

**Dyddiad dod i rym:** 31 Mawrth 2024

**Dogfennau cysylltiedig:** Y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru (2022)

**Dosberthir i:** LCC Cymru

# Gwybodaeth ofynnol

Er mwyn cyflawni ein rôl reoleiddio, mae arnom angen yr wybodaeth sydd wedi'i nodi, gyda'r dyddiad cyflwyno cyfatebol yn Atodiad A:

Sylwer mai'r dyddiadau a ddarperir yw'r dyddiadau olaf ar gyfer cyflwyno. Rydym yn croesawu gwybodaeth yn gynharach, unwaith y bydd y dogfennau wedi cael y gymeradwyaeth briodol.

**Bydd cyflwyno gwybodaeth ofynnol yn hwyr yn aml yn ystyriaeth wrth fynd ati i lunio Dyfarniadau Rheoleiddio.**

Os bydd unrhyw un o'r dyddiadau cyflwyno yn peri anhawster ichi neu os oes gennych gwestiwn ynglŷn â'r gofynion o ran cyflwyno, cysylltwch â'r Tîm Rheoleiddio Tai i drafod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfrifon Statudol

Dylid anfon copïau wedi eu llofnodi a'u cymeradwyo gan y Bwrdd a'r Archwilwyr Allanol.

Dylid cyhoeddi Cyfrifon Statudol ar wefan y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig erbyn y dyddiad cyflwyno.

## Cyfrifon Rheoli

Fel y'u cymeradwyir gan y Bwrdd â'r gofynion sylfaenol canlynol:

1. Cyfrifon incwm a gwariant manwl, ynghyd â mantolen
2. Incwm a gwariant fesul ffrwd fusnes (lle bo'n berthnasol)
3. Naratif yn esbonio unrhyw amrywiant mawr (gan gynnwys yr achosion sy'n ymwneud ag incwm a gwariant cyfalaf)
4. Monitro cyfamodau benthyciadau, gan gynnwys rhagolygon o'r hyn a ddisgwylir ar gyfer diwedd y flwyddyn
5. Rhagolwg llif arian, gan gynnwys manylion yr arian parod presennol a'r cyllid sydd ar gael **ar gyfer o leiaf y 18 mis nesaf.**

Gellir darparu rhai o'r gofynion hyn mewn Adroddiad Trysorlys – gweler isod.

**Os nad yw cylch cyfarfodydd y Bwrdd yn ei gwneud yn bosibl cymeradwyo'r cyfrifon mewn pryd ar gyfer y terfyn amser 42 dydd, cyflwynwch set ddrafft o'r cyfrifon erbyn y dyddiad a bennwyd ac anfon cadarnhad eu bod wedi cael eu cymeradwyo yn hwyrach.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Adroddiad Trysorlys

Mae nifer cynyddol o LCC yn llunio adroddiad ar eu swyddogaeth trysorlys, ar wahân i'w Cyfrifon Rheoli. Pan fo LCC yn llunio un o'r rhain, dylid darparu copi ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd neu'r Pwyllgor perthnasol.

## Rhagolygon Ariannol 30 Mlynedd

Bydd y gofynion cyflwyno manwl ar gyfer y rhagolygon ariannol 30 mlynedd yn cael eu darparu ar wahân.

Y dyddiad cau ar 31 Awst yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno. Dylid cyflwyno'r Rhagolwg ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo.

## Cynllun Busnes Strategol

Mae rhai LCC yn llunio Cynllun Busnes Strategol, dros bum mlynedd fel arfer, yn ogystal â Rhagolwg Ariannol 30 Mlynedd.

Pan fo hyn yn digwydd, dylid cyflwyno hwnnw hefyd, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

## Canlyniadau'r Arolwg Boddhad Tenantiaid

Bydd canllawiau ar wahân yn cael eu cyhoeddi. Cysylltwch â'r Tîm Rheoleiddio Tai os nad ydych yn siŵr o'r gofynion hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Hysbysiadau Gwaredu

Mae Hysbysiadau Gwaredu heb Flaenoriaeth yn ofynnol **bob chwarter,** yn ogystal â hysbysiadau â blaenoriaeth, sy'n ofynnol o fewn 10 diwrnod i gwblhau gwerthiant.

Mae'r ffurflenni hysbysu ar gael yma: **ffurflenni hysbysu am waredu** ynghyd â chanllawiau **cyfarwyddyd ynghylch hysbysu am waredu**.

### Arolwg Rheoleiddio Chwarterol

Mae arolwg newydd yn cael ei gyhoeddi'n uniongyrchol i LCCau bob chwarter. Dilynwch y cyfarwyddiadau yn ofalus yn yr e-bost a'r arolwg ei hun.

## Dull Cyflwyno

Dylid cyflwyno'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn electronig i

**housingregulation@llyw.cymru**

Sylwer na chaiff copïau caled eu derbyn.

## Manylion cyswllt


> **Tîm Rheoleiddio Tai drwy**
>
> **Rhif ffôn:** 03000 628906
> **E-bost:** **housingregulation@gov.wales**



> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Atodiad A: Amserlen ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

## Amserlen ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

| Cyflwyno gwybodaeth | Manylion | Dyddiad cyflwyno | Fformat y cyflwyniad |
|---|---|---|---|
| **1. Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio** | Ar gyfer LCC sy'n gweithredu mewn strwythur Grŵp – mae datganiadau ariannol cyfunol a datganiadau ariannol ar gyfer is-gwmnïau unigol yn ofynnol. | 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn | |
| **2. Llythyr yr Archwilydd ac ymateb y Bwrdd** | Fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio neu'r Bwrdd | 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn | |
| **3. Cysoni cyfrifon rheoli â datganiadau ariannol** | Cysoni'r ffigurau yn y datganiadau ariannol â'r rhai a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn y cyfrifon rheoli. | 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn | |
| **4. Cyfrifon rheoli chwarterol** | Fel y'u cymeradwywyd gan y Bwrdd | 42 diwrnod ar ôl diwedd y chwarter | |
| **5. Adroddiad trysorlys (lle y'i** | Fel y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd / Pwyllgor | 42 diwrnod ar ôl diwedd y chwarter | |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyflwyno gwybodaeth | Manylion | Dyddiad cyflwyno | Fformat y cyflwyniad |
|---|---|---|---|
| **lluniwyd)** | | | |
| **6. Datganiad cyllid preifat (PFR)** | Lle daw'r flwyddyn i ben ym mis Rhagfyr, mae datganiad o'r sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2023 yn ofynnol ***hefyd.*** | 31 Mai 2024 | Defnyddiwch demplad Excel 2024 |
| **7. Rhagolygon ariannol 30 mlynedd** | Yn unol â'r canllawiau manwl | 31 Awst 2024 | Canllawiau/templad<br><br>ar wahan i ddilyn |
| **8. Cynllun busnes strategol/ corfforaethol** | Fel y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd | Pan fo ar gael | |
| **9. Crynodeb o'r Archwiliad Mewnol** | Fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd a / neu'r Pwyllgor Archwilio | 31 Gorffennaf 2024<br><br>neu 30 Ebrill 2024 (lle daw'r flwyddyn i ben ym mis Rhagfyr) | |
| **10. Datganiad blynyddol o esemptiadau** | Yn unol â Chylchlythyr Cymdeithasau Tai 005/10. Mae datganiad yn ofynnol hyd yn oed | 31 Mai 2024<br><br>neu 28 | |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyflwyno gwybodaeth | Manylion | Dyddiad cyflwyno | Fformat y cyflwyniad |
|---|---|---|---|
| **atodlen 1** | os na wnaed unrhyw esemptiadau yn ystod y cyfnod | Chwefror 2024 (lle daw'r flwyddyn i ben ym mis Rhagfyr) | |
| **11. Canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid** | Gan ddefnyddio'r templed a ddarperir | 28 Chwefror 2024 | Canllawiau/templad<br><br>ar wahan i ddilyn |
| **12. Datganiad amrywiaeth y Bwrdd** | Gan ddefnyddio'r templed a ddarperir, asesu cyfansoddiad y Bwrdd ar 30 Medi 2024 | 31 Hydref 2024 | Canllawiau/templad<br><br>ar wahan i ddilyn |
| **13. Hunan-werthusiad gan gynnwys cynllun gwelliant parhaus** | Dim fformat benodol – gweler y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai wedi'u Cofrestru yng Nghymru. | Bob blwyddyn | |
| **14. Hysbysiadau gwaredu** | Gweler y ddolen uchod | Heb Flaenoriaeth - 21 diwrnod ar ôl diwedd y chwarter<br><br>Blaenoriaeth | Defnyddio y ffurflen **Hysbysiadau Gwaredu Excel safonol** |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyflwyno gwybodaeth | Manylion | Dyddiad cyflwyno | Fformat y cyflwyniad |
|---|---|---|---|
| | | – o fewn 10 diwrnod i gwblhau gwerthiant | |
| **15. Arolwg Rheoliad Chwarterol** | Gweler yr ebost cyffredinol ddaw gyda bob arolwg | Gweler yr ebost cyffredinol ddaw gyda bob arolwg | Defnyddio’r templad a ddarparwyd cyn cyflwyno bob chwarter |

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/yr-amserlen-ar-gyfer-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.